



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# **BIL IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL (ANSAWDD AC YMGYSYLLTU) (CYMRU)**

Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-  
ddeddfwriaeth

Mehefin 2019

## Cynnwys

|   |   |
|---|---|
| 1. Cyflwyniad .....   | 3 |
| 2. Rheoliadau i ddarparu ar gyfer 'Gweithdrefn Gonestrwydd' ..... | 4 |
| 3. Amserlen Ddisgwyliedig ar gyfer Cyflawni.....                  | 9 |

## 1. Cyflwyniad

Mae'r datganiad o fwriad y polisi yn amlinellu'r dull polisi presennol ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth ar gyfer y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru); "y Bil". Bydd y cynnig yn ddarostyngedig i ymgynghoriad a phroses graffu ei hun ac felly gallai gael ei newid. Paratowyd y ddogfen hon er mwyn cynorthwyo Pwyllgorau yn ystod y gwaith o graffu ar y Bil, a dylid ei darllen ar y cyd â'r Memorandwm Esboniadol a'r Nodiadau Esboniadol.

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod pwerau'r is-ddeddfwriaeth yn hanfodol:

- er mwyn rhagnodi materion yn ymwneud â manylion gweithdrefnol
- darparu'r hyblygrwydd ar gyfer materion lle y gallai fod angen gwneud addasiadau er mwyn hwyluso'r gwaith o weithredu'n effeithiol.

Prif bwrpas y Bil yw cyflwyno newidiadau sy'n gwneud y canlynol:

- gosod dyletswydd newydd yn ymwneud â gwelliannau yn ansawdd gwasanaethau iechyd ar gyrf GIG a Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'u swyddogaethau gwasanaeth iechyd
- diwygio a chryfhau'r trefniadau ar gyfer llais dinasyddion ar draws gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gysylltu pobl ymhellach â'r sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau ar eu cyfer
- gosod dyletswydd gonestrwydd ar ddarparwyr GIG yng Nghymru, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt fod yn agored ac yn onest pan aiff pethau o'u lle
- cryfhau trefniadau llywodraethu ar gyfer Ymddiriedolaethau GIG.

Er mwyn gallu cyfeirio'n rhwydd, mae'r ddogfen hon yn cyfuno'r darpariaethau hynny y bwriedir iddynt gael eu trin fel rhan o'r un offeryn statudol, er enghraifft, o fewn set o reoliadau.

Wrth ddatblygu is-ddeddfwriaeth, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod y darpariaethau'n berthnasol, yn ddilys ac yn gymesur.

## 2. Rheoliadau i ddarparu ar gyfer 'Gweithdrefn Gonestrwydd'

|   |                         |
|---|-------------------------|
| <b>RHEOLIADAU YN YMWNEUD Â</b>  | Gweithdrefn gonestrwydd |
| <b>RHAN O'R BIL</b>   | Rhan 3                  |
| <b>ADRAN</b>  | 4(1) i 4(4)             |
| <b>DULL O DDWYN I RYM</b>   | Negyddol                |
| <b>DISGRIFIAD O'R RHEOLIADAU</b>  |                         |
| <p>Mae Rhan 3, Adran 3 o'r Bil yn nodi pryd y mae'r ddyletswydd gonestrwydd yn gymwys.</p> <p>Mae'r ddyletswydd yn gymwys i gyrff GIG a ddiffinnir yn y Bil fel Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau GIG Cymru, Awdurdodau Iechyd Arbennig (gan gynnwys Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG mewn perthynas â'u swyddogaethau yng Nghymru) a darparwyr gofal sylfaenol sy'n darparu gofal o dan drefniadau gyda Bwrdd Iechyd.</p> <p>Caiff y ddyletswydd ei thanio pan fydd defnyddiwr gwasanaeth y mae'r corff GIG yn darparu neu wedi bod yn darparu gofal iechyd ar ei gyfer wedi dioddef canlyniad andwyol. Caiff defnyddiwr gwasanaeth ei drin fel pe bai wedi dioddef canlyniad andwyol os yw'r defnyddiwr gwasanaeth yn profi, neu os yw'r amgylchiadau yn golygu y gallai brofi unrhyw niwed anfwriadol neu annisgwyl sy'n "fwy na mân niwed".</p> <p>Bydd ystyr "mwy na mân niwed" yn cael ei nodi mewn canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 10 o'r Bil. Caiff y canllawiau eu datblygu gyda chymorth rhanddeiliaid, gan gynnwys clinigwyr, er mwyn sicrhau eu bod yn ymarferol ac yn addas at y diben. Mae amlinelliad o gynnwys y canllawiau a natur y gweithdai a gaiff eu sefydlu i ddatblygu'r manylion hefyd wedi cael eu paratoi er gwybodaeth i'r pwyllgorau.</p> <p>Mae Rhan 3, Adran 4 yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth am y weithdrefn sydd i'w dilyn os caiff y ddyletswydd gonestrwydd ei thanio.</p> <p>Mae Adran 4(1) yn gofyn ar i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n nodi gweithdrefn y mae'n rhaid i gyrff GIG ei dilyn pan gaiff y ddyletswydd gonestrwydd ei thanio.</p> <p>Mae Adran 4(2) yn nodi bod yn rhaid i reoliadau a wneir o dan adran 4(1) ei gwneud yn ofynnol i gyrff GIG hysbysu'r defnyddiwr gwasanaethau dan sylw, neu rywun sy'n gweithredu ar ei ran ("y defnyddiwr gwasanaeth"):</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• bod y ddyletswydd wedi dod i rym</li><li>• pwy yw'r 'unigolyn a enwyd' a fydd yn gweithredu fel pwynt cyswllt mewn perthynas â'r weithdrefn gonestrwydd</li></ul> |                         |

- unrhyw ymholiadau pellach a gynhaliwyd gan gorff GIG mewn perthynas â'r amgylchiadau a arweiniodd at y ddyletswydd gonestrwydd yn dod i rym.

Mae Adran 4(3) yn gwneud gofyniad pellach ar i'r rheoliadau wneud darpariaeth ar gyfer:

- y corff i gynnig ymddiheuriad
- darparu cymorth i'r defnyddiwr gwasanaethau a gafodd hysbysiad fel y disgrifiwyd yn is-adran 2(a)
- y gofyniad i gadw cofnodion

Mae Adran 4(4) yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud unrhyw ddarpariaeth arall mewn perthynas â'r weithdrefn gonestrwydd y maent yn ei hystyried yn briodol.

### **BETH Y GALL Y RHEOLIADAU EI GYFLAWNI?**

Bydd y rheoliadau a wneir o dan Adran 4 yn darparu fframwaith ar sut y bydd gofyn i gyrff GIG sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd weithredu er mwyn cyflawni'r ddyletswydd.

Mae Adran 4 yn rhagnodi'r elfennau sylfaenol y mae'n rhaid i'r weithdrefn dyletswydd gonestrwydd eu cynnwys er mwyn sicrhau bod y manylion a nodir yn y rheoliadau yn cynnwys elfennau hanfodol megis hysbysiad prydlon, ymddiheuriad, manylion ymholiadau pellach a gynhelir gan y corff mewn perthynas â'r amgylchiadau a arweiniodd at y digwyddiad andwyol etc. Fodd bynnag, mae galluogi Gweinidogion Cymru i osod y weithdrefn mewn rheoliadau yn cadw digon o hyblygrwydd i sicrhau bod y weithdrefn yn ymarferol ac yn gallu ymateb i unrhyw angen posibl i newid y weithdrefn o ganlyniad i adborth a gwersi gan y GIG a defnyddwyr gwasanaethau heb yr angen i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol.

Bydd y rheoliadau yn sefydlu gweithdrefn ac yn arwain at ymddygiadau sy'n cefnogi'r prif egwyddor sy'n sail i'r ddyletswydd, sef ei gwneud yn ofynnol i gyrff GIG weithredu mewn ffordd flaengar, agored a thryloyw adeg "digwyddiad". Bydd hyn yn helpu i gynnal arferion cyson a rheolaidd lle bydd bod yn agored ac yn dryloyw gyda defnyddwyr gwasanaethau mewn perthynas â'u gofal a'u triniaeth yn dod yn rhan arferol o'r diwylliant ar draws cyrff GIG yng Nghymru.

Bydd hefyd yn adeiladu ar yr egwyddorion o "Fod yn Agored" sydd wedi'u hymwreiddio yn y broses Gweithio i Wella<sup>1</sup> (y broses ar gyfer rheoli pryderon, gan gynnwys cwynion a digwyddiadau difrifol o fewn GIG Cymru). Bydd y weithdrefn dyletswydd gonestrwydd yn elfen allweddol o'r trefniadau Gweithio i Wella, a bydd hyn yn gofyn am wneud rhai diwygiadau i'r rheoliadau presennol sy'n sail i'r broses Gweithio i Wella: Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac lawn) (Cymru) 2011 ("Rheoliadau Gweithio i Wella") a'r canllawiau ategol.

<sup>1</sup> Gwybodaeth am Gweithio i Wella [y Rhyngwrdd]. Gweithio i Wella. 2018 [dyfynnwyd 4 Ebrill 2019]. Ar gael o: <http://www.wales.nhs.uk/sites3/w-page.cfm?orgid=932&pid=49279>

Yn arbennig, rhagwelir y bydd Rheoliadau Gweithio i Wella yn cael eu diwygio i sicrhau bod y weithdrefn dyletswydd gonestrwydd yn cael ei hymwreiddio yn y broses Gweithio i Wella, ac os caiff y weithdrefn dyletswydd gonestrwydd ei thanio, bydd y gofynion am ymchwiliad cymesur a nodir yn rheoliad 23 o'r Rheoliadau Gweithio i Wella yn gymwys.

Bydd hefyd angen gwneud diwygiadau i'r Rheoliadau Gweithio i Wella presennol, fel eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion yn adran 4(2) o'r Bil er mwyn i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n sicrhau bod corff GIG, pan fydd yn dod yn ymwybodol am y tro cyntaf bod y ddyletswydd gonestrwydd wedi dod i rym, yn hysbysu'r defnyddiwr gwasanaeth neu rywun sy'n gweithredu ar ran y defnyddiwr gwasanaeth.

Ar hyn o bryd mae adran 12(7) o'r Rheoliadau Gweithio i Wella yn gymwys pan fydd aelod o staff wedi datgan pryder am driniaeth claf. O dan adran 12(7) mae'r ddyletswydd i hysbysu defnyddiwr gwasanaeth (neu ei gynrychiolydd) o'r pryder/digwyddiad ddim ond yn codi ar ôl i'r Corff gynnal ymchwiliad cychwynnol ynghylch y pryder, a phan fo'r ymchwiliad hwnnw wedi dangos bod y claf wedi dioddef niwed cymedrol neu ddifrifol neu wedi marw.

Bydd y rheoliadau a wneir o dan adran 4(2) o'r Bil yn symud y cam o hysbysu'r defnyddiwr gwasanaeth ymlaen i'r pwynt pan fo'r corff GIG yn dod yn ymwybodol am y tro cyntaf bod y ddyletswydd gonestrwydd wedi cael ei thanio, yn hytrach nag ar ôl i'r ymchwiliad cychwynnol gael ei gwblhau. Mae hyn yn sicrhau bod pob achos o niwed yn cael ei ddatgelu i'r defnyddiwr gwasanaeth a brofodd y niwed (neu ei gynrychiolydd) ac yn cefnogi wrth ddysgu gwersi i sicrhau bod yr amgylchiadau a arweiniodd at y digwyddiad yn llai tebygol o ddigwydd eto yn yr un lleoliad, neu mewn lleoliad gwahanol.

Yn ddarostyngedig i ymgynghoriad ar y manylion, bwriedir i'r rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i'r corff GIG wneud pob ymdrech resymol i gysylltu â'r defnyddiwr gwasanaeth er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd i hysbysu. Bydd y rheoliadau hefyd yn ymdrin ag amgylchiadau pan fydd person arall yn cynrychioli'r defnyddiwr gwasanaeth. Byddant hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff GIG ofyn pa ddull cyfathrebu fyddai orau gan y defnyddiwr gwasanaeth, ac os na fydd y defnyddiwr gwasanaeth yn dymuno derbyn rhagor o ohebiaeth am y digwyddiad, dylai'r corff barchu hynny. Nid yw hyn yn golygu y dylai'r ymchwiliad i'r digwyddiad ddod i ben (oherwydd gallai fod gwersi ehangach i'w dysgu o'r digwyddiad) ond ni fydd y defnyddiwr gwasanaeth yn cymryd rhan bellach.

Y bwriad hefyd yw y byddai unrhyw ofynion hysbysu yn gofyn ar i'r corff roi disgrifiad o'r digwyddiad a daniodd y ddyletswydd i'r defnyddiwr gwasanaeth (yn seiliedig ar yr wybodaeth sydd ar gael i'r corff pan gafodd y ddyletswydd ei thanio). Byddai hyn yn rhoi cefndir defnyddiol i'r wybodaeth ar unrhyw ymholiadau pellach y mae'r corff yn bwriadu eu gwneud ynghylch amgylchiadau'r digwyddiad a arweiniodd at y danio'r ddyletswydd (sy'n rhaid bod yn rhan o'r weithdrefn gonestrwydd yn rhinwedd y gofynion yn adran 4(2)(b)(ii) o'r Bil).

Mae adran 4(2)(b)(i) o'r Bil yn darparu bod yn rhaid i'r rheoliadau gonestrwydd gynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r corff GIG hysbysu'r defnyddiwr

gwasanaeth neu ei gynrychiolydd pwy yw'r person o fewn y sefydliad a fydd yn bwynt cyswllt os bydd ganddynt unrhyw gwestiynau wrth i'r weithdrefn gonestrwydd fynd yn ei blaen. Bydd pwy yw'r person hwn yn amrywio yn dibynnu ar natur y digwyddiad dan sylw. Fodd bynnag, y bwriad yw y bydd y rheoliadau yn rhoi ddyletswydd ar gyrff GIG i ystyried nifer o faterion gan gynnwys: (i) natur a chymhlethdod y digwyddiad a (ii) difrifoldeb y digwyddiad wrth bennu pwynt cyswllt priodol. Bydd hyn yn sicrhau bod gan y person hwnnw y sgiliau a'r profiad perthnasol i allu ateb unrhyw ymholiadau a allai fod gan y defnyddiwr gwasanaeth. Mae hyn yn dilyn yr ethos o fod yn agored<sup>2</sup>, lle bydd cyfathrebu agored ac onest yn digwydd cyn gynted â phosibl ar ôl digwyddiad.

Bydd y rheoliadau yn mynd ymhellach i gefnogi newid yn y ffordd y mae cyrff GIG yn cyfathrebu â defnyddwyr gwasanaethau pan fydd rhywbeth wedi mynd o'i le gyda'u gofal, gan adeiladu ar yr egwyddorion "Bod yn Agored" a sefydlwyd o dan y broses Gweithio i Wella. Bydd y weithdrefn gonestrwydd a sefydlwyd o dan y rheoliadau yn gwneud y canlynol:

- newid natur y cyfathrebu sy'n digwydd gyda'r defnyddiwr gwasanaeth - gan sicrhau ei fod yn cael gwybod cyn gynted â bo'r Corff yn ymwybodol bod y ddyletswydd wedi'i thanio
- sicrhau bod y defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei gefnogi a'i hysbysu'n briodol, ac yn cael sicrwydd yr eir i'r afael â'r materion a arweiniodd at y digwyddiad ac y bydd gwersi'n cael eu dysgu
- annog cyfathrebu rhwng cyrff GIG a defnyddwyr gwasanaethau.

Mae tystiolaeth yn dangos mai'r peth y mae defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd neu ofalwyr ei eisiau fwyaf gan amlaf pan fydd rhywbeth yn digwydd, yw ymddiheuriad; parodrwydd i egluro beth aeth o'i le; ac ymagwedd agored i ddysgu o gangymeriadau<sup>3</sup>. Mae adran 4(3)(a) o'r Bil yn cydnabod pa mor bwysig yw ymddiheuro i ddefnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd drwy ei gwneud yn ofynnol i gyrff GIG gynnig ymddiheuriad fel ran o'r weithdrefn gonestrwydd. Y bwriad yw y bydd y rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i ymddiheuriad gael ei gynnig ar ddechrau proses pan hysbysir y defnyddiwr gwasanaeth fod y ddyletswydd wedi'i thanio. Mae'n bwysig nodi, at y dibenion hyn, nad yw ymddiheuro yn gyfystyr â'r corff yn cyfaddef bod y canlyniad andwyol a ddiodeffwyd gan y defnyddiwr gwasanaeth yn ganlyniad i esgeuluster gan y corff, oherwydd gall y canlyniad andwyol gael ei briodoli i nifer o achosion. Drwy ymddiheuro ar ddechrau'r broses, y gobaith yw gall y Corff a'r defnyddiwr gwasanaeth gynnal perthynas dda wrth iddynt ddilyn y weithdrefn gonestrwydd ac wedi hynny.

Bwriedir i reoliadau a wneir o dan adran 4(3)(b) amlinellu'r gofynion sydd i'w gosod ar gorff GIG i roi cefnogaeth wrth hysbysu defnyddiwr gwasanaeth bod y ddyletswydd wedi'i thanio. Nod y ddarpariaeth hon yw sicrhau bod cefnogaeth yn cael ei chynnig i ddefnyddiwr gwasanaeth a bod y gefnogaeth honno yn briodol i

<sup>2</sup> Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion Bod yn Agored [y Rhynggrwyd]. 2009. Ar gael o: <https://www.hsj.co.uk/download?ac=1293677>

<sup>3</sup> Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Cafodd y papur ei baratoi ar gyfer Fforwm Cyfarwyddwyr Cyllid y GIG, 2016 - gostyngid yn nifer yr hawliadau gwerth is ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG sy'n cyrraedd cam ymglyfreitha yng Nghymru.

ddifrifoldeb y digwyddiad ac i'w anghenion; er mwyn gallu amrywio lefel y gefnogaeth yn ôl y gofyn. Bydd hyn yn cyd-fynd â'r gofyniad i neilltuo unigolyn enwebedig priodol (aelod o staff) pan gaiff y ddyletswydd ei thanio (fel y nodir yn adran 4(2)(b)) drwy ddisgrifio ei rôl i roi cefnogaeth i ddefnyddiwr gwasanaeth.

Mae rheoliadau a wneir o dan adran 4(3)(c) yn caniatáu i Weinidogion Cymru nodi pa gofnodion y mae'n rhaid i gyrff GIG eu cadw mewn perthynas â chyflawni'r ddyletswydd. Mae cadw cofnodion cywir a phriodol yn cyd-fynd â'r dulliau sicrhau ansawdd sy'n angenrheidiol er mwyn nodi meysydd ar gyfer dysgu a gwella; gan wneud cyswllt â'r dyletswyddau adrodd a amlinellir yn adrannau 6, 7 ac 8 o'r Bil.

Mae adran 4(4) yn rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru wneud unrhyw ddarpariaeth arall mewn perthynas â'r weithdrefn gonestrwydd y mae Gweinidogion Cymru yn ei hystyried yn briodol. Bwriedir cynnal ymgynghoriad cyn gwneud y rheoliadau, ac mae'n bosibl y bydd y broses ymgynghori yn tynnu sylw at ddarpariaethau perthnasol eraill sy'n ofynnol er mwyn sicrhau bod y weithdrefn gonestrwydd yn addas at y diben. Mae'r ddarpariaeth hon yn caniatáu i newidiadau gael eu gwneud i'r weithdrefn, neu i elfennau eraill gael eu hychwanegu at y weithdrefn; gan sicrhau ei bod yn parhau'n briodol, yn gymesur a bod modd ei defnyddio i gyflawni bwriad y polisi.

## **PAM Y MAE ANGEN Y RHEOLIADAU**

Ystyriwyd nodi union fanylion y weithdrefn sydd i'w dilyn gan gyrff GIG ar wyneb y Bil. Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn rhoi digon o hyblygrwydd i ddiwygio'r weithdrefn yn ôl y gofyn - gan gynyddu'r perygl na fyddai'r weithdrefn yn addas at y diben. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd angen i'r manylion gael eu diwygio er mwyn ymateb i newidiadau yn y modelau gofal ac arferion gwaith, er mwyn dysgu o brofiad defnyddwyr o'r weithdrefn ac ystyried sut y mae'r weithdrefn yn gweithredu mewn achosion cymhleth neu anarferol.

Caiff y rheoliadau eu datblygu drwy broses ymgynghori gyda rhanddeiliaid a'u hadolygu yn ôl y gofyn. Bydd y broses hon yn caniatáu i reoliadau gael eu diwygio yn ôl yr angen er mwyn adlewyrchu arferion gorau a'r gwersi a ddysgwyd, a mynd i'r afael ag unrhyw beth y gellid fod wedi'i hepgor.

Wrth fabwysiadu'r dull hwn, byddwn hefyd yn ystyried y ffaith bod manylion y weithdrefn ar gyfer dyletswydd gonestrwydd hefyd yn cael eu nodi mewn rheoliadau (yn hytrach nag is-ddeddfwriaeth) mewn awdurdodaethau eraill lle mae'r ddyletswydd gonestrwydd yn gymwys.

Er enghraifft yn Lloegr<sup>4</sup>, caiff y weithdrefn ei hamlinellu yn rheoliad 20 o Reoliadau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (Gweithgareddau a Reoleiddir) 2014, fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (Gweithgareddau a Reoleiddir) (Diwygio) 2015.

<sup>4</sup> Gweler rheoliad 20 o Reoliadau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (Gweithgareddau a Reoleiddir) 2014 (OS 2014/ ), fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (Gweithgareddau a Reoleiddir) (Diwygio) 2015 (SI 2015/64)



Yn yr un modd, yn yr Alban, mae adran 22 o Ddeddf Iechyd (Tybaco, Nicotin etc. a Gofal) (yr Alban) 2016 yn mabwysiadu dull gweithredu tebyg, a thra bod adran 22 yn amlinellu ystod o faterion a allai gael eu cynnwys yn y weithdrefn gonestrwydd, caiff manylion y weithdrefn, unwaith eto, eu nodi mewn rheoliadau<sup>5</sup>.

Defnyddir y weithdrefn negyddol oherwydd bydd y rheoliadau yn rhai technegol eu natur.

**Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith a wnaed hyd yn hyn, dogfennau polisi, Datganiadau gan Weinidogion etc.)**

Bydd canllawiau yn cefnogi'r rheoliadau. Y bwriad yw y bydd canllawiau hefyd yn cwmpasu, ymhlith pethau eraill, ddigwyddiadau lle mae mwy nag un darparwr wedi darparu gofal i un defnyddiwr gwasanaeth a bod mwy nag un peth wedi digwydd. Bydd y canllawiau yn egluro sut rydym yn disgwyl y bydd pob corff GIG sy'n rhan o'r "digwyddiad" yn cyflawni ei ddyletswydd, ac i wneud hyn mewn cysylltiad â phob digwyddiad.

Bydd y canllawiau hefyd yn ystyried sefyllfaoedd lle y gallai cyrff GIG ddymuno gweithio gyda'i gilydd i gyflawni eu dyletswyddau ar y cyd h.y. darparu un ymateb i'r defnyddiwr gwasanaeth neu rywun sy'n gweithredu ar ei ran.

### 3. Amserlen ddisgwyliedig ar gyfer Cyflawni

| OFFERYN STATUDOL | DYDDIAD DISGWYLIEDIG DECHRAU'R GWAITH   | DYDDIAD DISGWYLIEDIG DOD I RYM |
|------------------|---|--------------------------------|
| Hydref 2021      | Bydd gwaith paratoi yn dechrau wrth i'r Bil symud yn ei flaen drwy'r Cynulliad. | Gwanwyn 2022                   |

<sup>5</sup> The Duty of Candour Procedure (Scotland) Regulations 2018 (SI 2018/57).